# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Cheryl Philpott | Adran Etholiadol: | Sgeti |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Fel rhan o dîm Cynghorwyr Sgeti, rwy'n mynd i Gymorthfeydd Cynghorwyr yng Nghanolfan Gymunedol Parc Sgeti, Llyfrgell Sgeti a Marchnad Ffermwyr Sgeti ar rota misol.

Rwyf hefyd yn mynd i gyfarfodydd Cymdeithas Preswylwyr Parc Sgeti, Cyfeillion Parc De La Beche, Cymdeithas Preswylwyr Clyne Court, Cyfeillion Parc Clun, Derwen Fawr, Cymdeithas Preswylwyr Mayals a Chymdeithas Preswylwyr Heol Warwick.

Rwyf hefyd yn mynd i gyfarfodydd deufisol PACT (Yr Heddlu a Chymunedau Ynghyd).

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datbylgu Ardal 2 | 8 | / | 12 | 67 | % |
| Cyngor | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datbylgu | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 2 | / | 3 | 67 | % |
| CYFFREDINOL | 26 | / | 38 | 68 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Rwyf wedi bod yn gweithio gydag aelodau'r Byrddau a'r Pwyllgorau canlynol:

Panel Ymchwilio Craffu Twristiaeth
Panel Ymchwiliad Craffu Cynhwysiad Addysg
Panel Ymchwiliad Craffu Gwella Corfforaethol a'r Gyllideb
Panel Craffu Perfformiad Ysgolion
Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid
Panel Ymchwilio Craffu Gofal Cymdeithasol yn y Cartref
Panel Ymchwiliad Craffu Anweithgarwch Economaidd

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**.

Roeddwn yn rhan o sefydlu grŵp o'r enw Cyfeillion Parc Parry er mwyn gweithio gyda sefydliadau eraill i drefnu ailosod cyfarpar chwarae mewn parc lleol.

Roeddwn hefyd wedi cyfeirio Cyfeillio Parc De La Beche i gyflwyno cais llwyddiannus am arian i adnewyddu'r hen gyrtiau tenis.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

22/01/2014 - Rheolau Trafod
13/01/2014 - Cofrestru Etholiadol Unigol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n Is-gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Parkland ac rwyf wedi bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Sgeti gan fynychu cyfarfodydd amrywiol a chefnogi swyddogaethau yn y ddwy ysgol.

Rwyf hefyd yn mynd i'r afael â sawl e-bost, galwad ffôn, ymweliadau personol a gohebiaeth arall sy'n ymwneud â nifer o faterion amrywiol sy'n effeithio ar etholwyr a'r ward yn gyffredinol.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 14.11.14 |